AGOR OPEN ALLAN OUT 24

ARTICULTURE

easy read

# Consortiwm Celfyddydau Awyr Agored Cymru

## Oes gennych chi syniad am sioe awyr agored newydd i fynd ar daith yn 2024?



## Sut i wneud cais am arian a chymorth i wireddu eich syniad

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Contents


| Contents | | Page |
|---|---|---|
| ARTICULTURE | Gwybodaeth am y prosiect | 3 |
|  | Eich syniad | 4 |
|  | Pwy sy’n cael gwneud cais | 6 |
|  | Arian ar gyfer cynnal 8 eich sioe | 8 |
|  | Pethau i’w hystyried | 10 |
|  | Sut mae gwneud cais | 12 |
|   | Dyddiadau pwysig | 13 |
|   | Cysylltu â ni | 14 |

# Gwybodaeth am y prosiect



ARTICULTURE

Articulture ydyn ni. Rydyn ni'n cydweithio gydag 11 o sefydliadau celfyddydol.

Rydyn ni’n eu galw nhw’n bartneriaid i ni.

Ystyr celfyddydau ydy pethau fel:



- Cerddoriaeth a Dawns
- Theatr a Syrcas
- Pypedau a Chlowniau




Mae ein partneriaid yn cynnal gwyliau a mannau awyr agored lle gall pobl gynnal sioeau.



Rydyn ni eisiau i bobl ddweud wrthyn ni beth yw eu syniad am sioe.




Byddwn ni'n rhoi arian a chefnogaeth i 3 syniad.



Os byddwn ni’n dewis eich syniad chi,byddwch chi'n cynnal rhwng 6 a 9 sioe mewn gwahanol lefydd ledled Cymru.

## Eich syniad



Rhaid i’ch sioe fod yn rhywbeth:

- sy’n digwydd yn yr awyr agored. Fel cae, parc neu stryd




- gall pobl wylio neu gymryd rhan ynddo. Er enghraifft, pethau fel canu, actio, gwneud cerddoriaeth, clowniau neu acrobatiaid




- sy’n dod â phobl wahanol at ei gilydd




Rhaid i'r syniad fod yn sioe newydd. Nid sioe rydych chi wedi'i chynnal o'r blaen.



Os bydd pobl yn siarad yn eich sioe, rhaid iddyn nhw siarad yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Os bydd yr Eisteddfod yn cynnal eich sioe, rhaid i bobl siarad Cymraeg yn unig yn eich sioe.



Fel arfer, gall rhwng 30 a 200 o bobl ddod i weld pob sioe y byddwch chi'n ei chynnal.



Os byddwn ni'n dewis eich syniad chi, gallwn ni roi cymorth i helpu i wireddu eich syniad.


# Pwy sy'n cael gwneud cais

Ar gyfer yr holl syniadau rydyn ni'n eu dewis:



- rhaid i'r **prif artist** fyw yng **Nghymru**

  Y **prif artist** ydy'r prif berson sy'n gyfrifol am y syniad am eich sioe.



  rhaid i'r sioe gynnwys un o'r canlynol:

  - neb yn siarad
  - pobl yn siarad Cymraeg a Saesneg
  - pobl yn siarad Cymraeg yn unig



- rhaid i bawb sy'n gweithio ar y sioe fod â chaniatâd i weithio yn y DU



- rhaid i chi allu cael **yswiriant** i gynnal eich sioe

  **Yswiriant** ydy talu i gwmni i'ch helpu os bydd pethau'n mynd o chwith gyda'ch sioe.



Ar gyfer 1 o’r syniadau y byddwn ni’n eu dewis, rhaid cynnwys y canlynol:

- Unigolion anabl yn cymryd rhan yn y sioe




- Pobl fyddar yn cymryd rhan yn y sioe



- Pobl **niwroamrywiol** yn cymryd rhan yn y sioe



Y ffordd i’w ynganu yw niw-ro-amr-yw-iol



Ystyr **niwroamrywiol** yw bod eich ymennydd yn gweithio’n wahanol i ymennydd pobl eraill. Efallai eich bod yn awtistig neu â chyflwr ADHD.




# Arian ar gyfer cynnal eich sioe

Gallwch chi ofyn i ni roi hyd at £6000 i helpu i wireddu eich syniad.




Bob tro y byddwch chi'n cynnal eich sioe, gallwch chi ofyn i ni roi rhwng £400 a £1000 i chi.




Bydd angen i chi wneud cynllun sy'n dangos faint o arian fydd ei angen arnoch.




Rhaid i chi ddweud wrthym faint fydd ei angen arnoch ar gyfer pob un o'r pethau yn eich cynllun.

Dywedwch wrthym faint y byddwch chi'n ei dalu am bethau fel:




- pobl i fod yn eich sioe ac amser i ymarfer



- lle i ymarfer




- dweud wrth bobl am eich sioe ar wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol. Cyfryngau cymdeithasol ydy pethau fel Twitter (X) ac Instagram



- creu gwisgoedd a'r holl bethau fydd eu hangen ar gyfer y sioe




- os ydych chi'n gwmni sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW (Treth ar Werth), siaradwch â ni ynglŷn â thalu TAW




## Pethau i’w hystyried

Dyma rai pethau i’w hystyried pan fyddwch chi’n cyfrifo faint o arian sydd ei angen arnoch.




- Sawl munud y bydd eich sioe yn para, a sawl sioe y gallwch ei gwneud mewn diwrnod




- Sut byddwch chi, eich tîm a’r pethau yn teithio i’r sioeau




- Lle i aros os oes angen i chi aros dros nos



- Faint fyddwch chi’n ei dalu i’ch artistiaid bob dydd am weithio ar y sioe



Bydd eich sioe yn cael ei chynnalmewn gŵyl brysur a digwyddiadau llai.



Efallai na fydd pethau ychwanegol ar gael yno i'ch helpu i gynnal eich sioe.

Pethau fel trydan, neu bobl i'ch helpu i symud pethau neu osod pethau ar y llwyfan.



Dylech hefyd feddwl am unrhyw gefnogaeth ychwanegol fydd ei hangen arnoch er mwyn cynnal eich sioe.

Pethau fel:




- Gyrrwr i'ch hebrwng chi a'ch pethau i'r gwahanol ddigwyddiadau



- Cynorthwy-ydd Personol neu Weithiwr Cymorth




- Cyfieithydd ar y pryd os ydych yn siarad iaith arall




Mae'n syniad da nodi yn eich cynllun faint fyddwch chi'n ei dalu am y pethau yma.



Gallwn ni eich helpu i greu cyllideb.




Gallwn ni eich helpu i feddwl am ffyrdd o wneud i'ch syniad weithio.

# Sut mae gwneud cais



Gallwch chi wneud cais drwy:

- anfon fideo neu recordiad o'ch llais atom ni



- llenwi ffurflen



- cael cyfarfod ar-lein gyda ni. Bydd y cyfarfod yn digwydd dros Zoom



Gallwn ni roi cymorth a chefnogaeth i chi wneud cais, os ydych chi eisiau.

# Important dates




Rhaid i chi ddweud wrthym am eich syniad erbyn **12pm ar ddydd Gwener Chwefror 2.**




Byddwn ni'n dewis 3 syniad erbyn **Dydd Gwener Chwefror 23.**




Os byddwn ni'n dewis eich syniad chi, byddwn ni'n dechrau gweithio gyda chi **Dydd Llun Mawrth 4.**




Cynhelir ymarfer gyda gwisgoedd ym mis Mai.

Ymarfer gyda gwisgoedd yw eich ymarfer olaf cyn cynnal eich sioe.

Rydych yn ymarfer y sioe o'r cychwyn i'r diwedd heb stopio.



Gall pobl ddod i wylio ymarfer gyda gwisgoedd.

Mewn ymarfer gyda gwisgoedd byddwch yn:



- gwisgo'ch gwisg

a



- gallwch wirio bod pethau fel y gerddoriaeth yn gweithio'n iawn




Bydd ein digwyddiadau a'n gwyliau yn dechrau ym mis ym **mis Mehefin 2024**

# Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, gallwch chi gysylltu â ni:




**E-bost:**

**julieann@articulture-wales.co.uk**



**Dros y ffôn neu neges destun:**
**07890 681212**



**Ar Facebook:**
**www.facebook.com/ ArticultureWales**



**Ar X. This used to be called twitter:**
**twitter.com/Articulture_**



**On Instagram:**

**www.instagram.com/ articulture_wales/**